# CELFYDDYDAU PERFFORMIO L2

## Diploma a Dyfarniad Lefel 2 yn y Celfyddydau Perfformio

| | |
|---|---|
| **Pryd gaiff ei gyflwyno:** | Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd |
| **Teitl y Cymhwyster:** | Diploma a Dyfarniad Lefel 2 yn y Celfyddydau Perfformio |
| **Corff Dyfarnu:** | University Arts London (UAL) |

### Cyflwyniad i'r pwnc

Mae'r cwrs hwn yn cael ei gynnig trwy Raglen Cyswllt Ysgolion 14-19 oed Wrecsam ac mae'n addas ar gyfer y rheiny sy'n dymuno meithrin eu sgiliau ymarferol sylfaenol mewn actio, canu a dawnsio. Felly, dylech fod yn barod i feithrin diddordeb ym mhob un o'r meysydd hyn trwy gydol y cwrs.

### Cynnwys y Cwrs

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau unigol ac mewn grŵp. Byddwch yn datblygu eich sgiliau actio, lleisiol a symud. Bydd cyfleoedd i gymryd rhan mewn perfformiadau yn ystod y cwrs. Mae gwaith grŵp yn rhan hanfodol o'r cwrs a byddwch yn creu deunyddiau perfformio fel rhan o waith grŵp.

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn yn cynnwys 9 uned sy'n ymwneud â'r ystod o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y diwydiant Celfyddydau Perfformio.

### Asesu

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys asesiadau ymarferol wedi'u hategu gan waith damcaniaethol, i danategu'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu. Bydd yn cael ei asesu'n fewnol ac yna'i gymedroli gan y bwrdd arholi.

### Cyfleoedd Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, nid yw'n debygol y byddwch yn gallu symud ymlaen yn uniongyrchol i faes cyflogaeth cysylltiedig. Ond efallai byddech yn dymuno cael clyweliad ar gyfer cymhwyster Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio er mwyn parhau i feithrin eich sgiliau a'ch gwybodaeth fel perfformiwr.

### Costau

Bydd angen i chi ddarparu dillad addas ar gyfer gweithgareddau ymarferol.